

# Y Synhwyrâu

## Darllen: Salm 103:13

Mae'r weddi heddiw yn diolch am y synhwyrâu a'r modd yr ydym yn eu defnyddio yn ein bywyd beunyddiol. Rydym wedi eu defnyddio ar y ffordd i'r oedfa heddiw i glywed, i weld, i flasau, i aroglu ac i gyffwrdd. Mae'r synhwyrâu'n rhoi bywyd llawn i ni, a phan gollwn ni ddefnydd o un ohonyn nhw mae bywyd yn mynd yn feichus.

Mae'n werth myfyrio ar fywyd un oedd yn fud, dall a byddar. Yn 1880, yn Alabama yn yr Unol Daleithiau, ganed merch i Capten a Mrs Keller. Roedd yn ferch fach fywiog a byrlymus, fel pob merch arall, ond digwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn iddi. Dwyflwydd oed oedd Helen pan gafodd ei tharo'n wael, ac roedd ei meddyg yn ofni'r gwaethaf. Neges drist iawn oedd gan y meddygon i rieni Helen, ond erbyn bore drannoeth gwelwyd bod y ferch fach yn troi ar wella. Galwyd y rhieni, a dywedodd y meddyg bod gobaith iddi, a dechreuodd wella o ddydd i ddydd. Ond o dipyn i beth gwaethygodd cyflwr Helen. Pan fyddai ei mam yn gweiddi arni i ddod i'r tŷ, byddai Helen yn dal i chwarae yn yr ardd. Ym marn ei thad, wedi ymgolli yn ei chwarae oedd hi a ddim eisiau gwranddo, fel llawer o blant o'i hoed. Dros yr wythnosau dilynol, gwelwyd nad oedd hi'n gallu gweld yn iawn. Byddai'n taro'n erbyn dodrefn a drysau. Dechreuodd gamymddwyn. Byddai'n rhedeg o gwmpas yr ardd yn sgrechian a gwneud pob math o synau. Pan fyddai ei mam yn mynd i chwilio amdani, byddai Helen yn troi arni ac yn ei brathu a'i chicio. Bellach, daeth ei rhieni i benderfyniad bod Helen yn dirywio a bod ei holl bersonoliaeth wedi newid. Roedd rhaid gwneud rhywbeth ar frys cyn iddi ddirywio ymhellach.

Clywsant fod ysgol i blant mud a byddar wedi ei hagor gan Doctor Howe. Aeth ei rhieni i weld y Doctor, a llwyddwyd i gael athrawes i helpu Helen, sef merch ifanc bedair ar bymtheg oed o'r enw Anne Sullivan. Ond doedd hi ddim yn hawdd trin Helen. Yn ystod pryd bwyd, byddai'n taflu'r bwyd i bob man a dechrau ymosod ar bawb oedd yn eistedd gyda hi wrth y

bwrdd. Ymosododd fwy nag unwaith ar ei hathrawes. Un waith, dyrnodd hi yn ei cheg a cholodd Anne un o'i dannedd. Ond o dipyn i beth daeth y ddwy'n ffrindiau, a dechreuodd Helen ymddiried yn ei hathrawes. Pan oedd yn ddeg oed dechreuodd ddysgu siarad, a daeth yn fyfyrwr eiddgar. Llwyddodd yn ei harholiadau er gwaethaf ei holl anfanteision. Wedi cyfnod yn y coleg, aeth Helen ac Anne i fyw ar fferm, a threuliai'r ddwy oriau'n cerdded o gwmpas y fferm yn mynd am dro efo'r ci. Roedd Helen yn awyddus iawn i helpu pobl eraill oedd yn fud, byddar a dall. Teithiai o gwmpas y wlad i sôn am yr hyn oedd wedi digwydd iddi, a rhoi'r arian a dderbynai am hynny i helpu cartrefi ac ysgolion ar gyfer y deillion a'r byddariaid. Aeth y sôn amdani ar hyd a lled y byd. Helen Keller oedd y ferch a wnaeth gymaint – er gwaethaf ei hanawsterau – i helpu pobl debyg iddi hi ei hun.

### **Myfyrdod pellach:**

Sut ydych chi'n ymateb i bobl ddall a byddar yn eich cymdeithas?

Ydi'r eglwys yn gwneud digon i helpu pobl fel hyn?